



## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 14 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Argyfwng Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## Newyddion

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

I gweld adnoddau pellach

Fel rhan o'n hymrwymiad i helpu Cynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru i hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a chymunedau mwy diogel, cynhaliwyd gweminar gyda Chyngor Tref Hwlffordd yn ddiweddar yn arddangos eu Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth. Archwiliodd y sesiwn eu camau ymarferol, eu heriau a'u llwyddiannau wrth ddatblygu newid ystyrlon a chynaliadwy.

Rydym wedi cynnwys amrywiaeth o adnoddau isod, gan gynnwys canllaw Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth sy'n llawn gwybodaeth ymarferol, dolenni defnyddiol, a chamau clir y gall Cynghorau eu cymryd i ymgorffori arfer gwrth-hiliol yn lleol. Mae'r deunyddiau hyn wedi'u cynllunio i helpu Cynghorau i feithrin hyder, cryfhau arfer cynhwysol, a chymryd camau ystyrlon a chyraeddadwy tuag at gymunedau tecach a mwy croesawgar ledled Cymru.

Yn ddiweddar rydym wedi creu tudalen newydd ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan, ewch i: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - Un Llais Cymru ).

-----------------------------

### Adroddiad ar bobl hŷn mewn tlodi yng Nghymru – a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2025

Rwy'n falch o allu rhannu copi o'm hadroddiad diweddaraf – Pobl hŷn mewn tlodi yng Nghymru – sydd wedi cael ei gyhoeddi heddiw:

Lawrlwythwch eich copi o Pobl Hŷn mewn Tlodi yng Nghymru

Mae'r adroddiad yn edrych ar hyd a lled ac effaith tlodi ymysg pobl hŷn yng Nghymru heddiw ac yn galw am amrywiaeth o gamau gweithredu i roi mwy o gymorth i unigolion sy'n cael trafferthion ariannol. Mae'r adroddiad yn defnyddio geiriau pobl hŷn eu hunain, a gasglwyd drwy ymchwil ac ymgysylltu, i dynnu sylw at realiti tlodi yn nes ymlaen mewn bywyd. Mae hefyd yn defnyddio'r data a'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael i ddangos pam mae mynd i'r afael â'r broblem hirsefydlog hon mor bwysig er mwyn atal niwed sylweddol i bobl hŷn ac i gymdeithas drwyddi draw.

-----------------------------

## Newyddion Gweithredu a Hinsawdd

Cliciwch yma

-----------------------------

## Yda chi yn dilyn ni ar cyfryngau cymdeithasol - gweler rhestr isod o sut i ffeindio ni !!



Mewngofnodi X

You Tube

LinkedIn

Facebook Un Llais Cymru

Fforwm Argyfwng Costau Byw

BlueSky

---

**Cylchlythyr Etholiadau Llywodraeth Cymru**

Gweler yma

---

**Cymwysterau Sefydliad Rheoli Gweithleoedd a Chyfleusterau (IWFM) wedi'u hariannu'n llawn**

Gweler yma ( fersiwn Gymraeg ar y gwaelod)

---

**Podlediadau Awdit Cymru**

Gwrandewch yma

---

Mae Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni (NESO) yn datblygu Cynllun Strategol Ynni Rhanbarthol (RESP) pwrpasol ar gyfer Cymru. Bydd y Cynllun yn helpu i sicrhau bod Cymru yn cael yr isadeiledd ynni sydd ei angen i gyflawni nodau ar gyfer twf economaidd a dadgarboneiddio. Mae NESO wedi datblygu methodoleg arfaethedig, sy'n nodi sut y caiff y cynllun ei gynhyrchu. Cyhoeddwyd y methodoleg ar gyfer ymgynghori ar 17 Tachwedd 2025 ac mae'n rhedeg tan 16 Ionawr 2026. Gallwch weld y methodoleg yma, lle byddwch hefyd yn dod o hyd i fanylion ar sut i ymateb i'r ymgynghoriad.

---

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:

**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

**......................**

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:

**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

**Nodau Datblygu Ymarfer i gyd iw gweld yma**

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:

**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch 3 clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

Cliciwch yma i llogi lle

## SWYDDI

### Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

Mwy o Fanylion

Hoffech chi weithio gydag Un Llais Cymru? Os felly, edrychwch ar ein tudalen wefan Ymunwch â'n Tîm. Mae swydd wag ar hyn o bryd yn ein Tîm Bioamrywiaeth (dyddiad cau: 16 Rhagfyr 2025).

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y DU yn chwilio am gynrychiolydd i Gymru ar y Panel Ymgynghorol Arbenigol

-

**Swydd Wag:** Cymorth Tîm y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

**Grŵp**: Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

**Ystod cyflog neu fand Cyflog**: Cymorth Tîm £27,302 i £29,291

**Lleoliad (au)**: Gogledd Cymru

**Dyddiad cau**: 12/12/2025, 16:00

**Cyswllt:** Cymorth Tîm y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

**Pwynt cyswllt i gael rhagor o wybodaeth am y swydd**: RPW.DivisionalReturns@gov.wales

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu gyda'r nod o gefnogi darpariaeth y flaenoriaeth Weinidogol allweddol hon ar gyfer Cymru.

Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'n partneriaid allanol i ganfod unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swyddi bwrdd.

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Dysgu – Addysg Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol Cymru - Penodi Aelodau - Cymraeg yn Hanfodol –

Dysgu – Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru - Penodi Aelodau -Cymraeg dymunol –

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 22/12/2025 am 16:00.**

**---------------------------------------------------------------------------**

Penodi Aelod Annibynnol i Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) –

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 02 Ionawr 2026, am 16:00.**

Byddem yn ddiolchgar pe gallech chi ddosbarthu'r uchod mor eang â phosibl i'ch rhwydweithiau.

## Cadwch y Dyddiad

**Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru**

21ain IONAWR 2026

**Cynhadledd Cenedlaethol a Gwobrau Un Llais Cymru**

1af GORFFENNAF 2026

**Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru**

30ain MEDI 2026

---

## Ymgynghoriadau

Am wybodaeth pellach

Am wybodaeth pellach

---

## Diweddariadau Prosiectau a Ariannwyd gan Un Llais Cymru:

### Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

**Bydd pobl ledled Cymru yn elwa o grant newydd gyda'r nod o helpu pawb i ennill y sgiliau digidol sylfaenol, yr hyder a'r mynediad sydd eu hangen i gymryd rhan lawn yn y byd digidol.**

Am wybodaeth pellach

-----------------------------

Cefnogi Iechyd Meddwl – Paratoi Eich Cymuned ar gyfer Heriau Mis Ionawr

Dydd Gwener 12 Rhagfyr 11am - 1pm

Yn aml iawn mis Ionawr yw'r mis anoddaf i lawer o bobl: rhaid talu biliau, mynd yn ôl i drefn arferol bywyd, ac mae tywydd oer yn gallu gwneud heriau iechyd meddwl ac unigrwydd yn waeth. Gan fod llawer o wasanaethau ar gau dros y Nadolig, mae cynllunio cynnar yn gofalu fod cymorth ar gael pryd bynnag mae ei angen.

Ymunwch â'r gweminar ymarferol hwn i edrych ar ffyrdd cost isel y gall eich cyngor gefnogi pobl dros y gaeaf hwn. Cawn gyfraniad gan y Samariaid ar yr effaith ar iechyd meddwl ar draws cymunedau yng Nghymru, a chan Gyngor Dinas Bangor ar sut mae eu hwb cymunedol newydd yn helpu pobl leol gydag anghenion ariannol, cymdeithasol, a llesiant.

Cofrestrwch yn awr
https://us06web.zoom.us/meeting/register/WNG1LlIATniw55xfgSn...

---

**Lleoedd lleol ar gyfer Natur**

**Un Llais Cymru – Tîm Bioamrywiaeth**

**Cyswllt Rachel a Sam:** bioamrywiaeth@unllaiscymru.cymru

**Pecynnau Bioamrywiaeth**
Mae ein **Deg Pecyn** ar agor ar gyfer ceisiadau, a gallwch ddarganfod mwy yma: *Pecynnau Bioamrywiaeth ULC.*

Nawr bod y tymor plannu bylbiau wedi dod i ben, byddwn yn dyrannu Gwrychoedd, Coed a Pyllau dros yr wythnosau nesaf. Os gwelwch yn dda, cyflwynwch eich ceisiadau cyn gynted â phosibl neu cysylltwch â ni i drafod sut y gallai ein pecynnau gyd-fynd â'ch Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth. Ymgeisiwch yma

**Coed a Llwyni**
Mae ein Canllaw newydd i Goed a Llwyni bellach ar gael. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am amrywiaeth eang o goed a llwyni brodorol, gan gynghori ar yr amodau gorau, ymddangosiad gwahanol rywogaethau, a'u rôl yn ein diwylliant a'n treftadaeth. Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn helpu Cynghorau i ddewis y **Gwir goeden, yn y Gwir le, am y Gwir reswm**. Cysylltwch â ni os oes angen unrhyw wybodaeth bellach neu gyngor ar blannu coed, llwyni, neu unrhyw welliannau bioamrywiaeth arall y mae eich Cyngor yn eu hystyried.

**Ymunwch â'n Tîm**
Rydym yn recriwtio **Swyddog Cefnogi Rhaglen** i ymuno â'n Tîm Bioamrywiaeth. Os ydych chi'n caru natur ac â sgiliau TGCh a threfnu rhagorol, gallai hwn fod y swydd i chi! Mae mwy o fanylion ar gael ar ein gwefan yma.

**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24c Stryd Y Coleg,

Rhydaman

SA18 3AF

Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg a'r cylchlythyr . Cysylltwch a kbrown@unlliascymru.cymru am cymorth efo hyn.

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite